



## POLISI DEFNYDD O'R RHYNGRWYD

### RHAGYMDRODD

**Mae Ysgol Bro Plenydd, yn unol â sêl bendith Awdurdod Addysg Gwynedd, yn credu yng ngwerth addysgol y Rhyngwrwd fel ffynhonnell werthfawr o adnoddau ac fel modd effeithiol o ddisgyblion i ymchwilio a chyfathrebu.**

Bellach, mae cyfrifiaduron yn dylanwadu ar addysg ar draws y Cwricwlwm cyfan, ar gyfer plant o bob oed a chyrhaeddiad. Mae newidiadau mynych a datblygiadau sylweddol a chyson yn y maes, ac felly rhaid i'r ysgol baratoi'r plant ar gyfer deall a defnyddio'r dechnoleg yn bositif, er mwyn datblygu'r defnydd mwyaf effeithiol ohono. Mae'r Rhyngwrwd a chyfathrebu electroneg bellach yn rhan annatod o Dechnoleg Gwybodaeth ac mae'n holl bwysig fod ein plant yn cael manteisio ar yr hyn sydd ganddo i'w gynnig.

### Amcanion

1. Defnyddio'r Rhyngwrwd i gyfoethogi ac ehangu'r dysgu ar draws y Cwricwlwm gan dalu sylw i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ym mhob maes.
2. Datblygu sgiliau plentyn wrth ddefnyddio'r Rhyngwrwd.
3. Rhaid meithrin hyder yn y plant i reoli'r dechnoleg at eu pwrpas eu hunain, yn hytrach na dilyn cyfarwyddiadau'r cyfrifiadur yn unig.
4. Datblygu ymwybyddiaeth o gryfderau a diffygion y dechnoleg.
5. Defnyddio'r Rhyngwrwd i hyrwyddo codi safonau mewn rhifedd a llythrennedd a chywain gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o feysydd.

Ond fel sawl cyfrwng arall, mae **peryglon** wrth ddefnyddio'r Rhyngwrwd. Mae deunyddiau treisiol, hiliol a phornograffig ar gael ar y We ochr yn ochr ag adnoddau defnyddiol a deniadol. Rhaid i ni fel ysgol sicrhau rheolaeth gadarn o'r defnydd sydd arni gan felly gydnabod peryglon y cyfrwng a chynllunio yn ofalus er mwyn sicrhau defnydd addas, effeithiol a diogel ohono.

### Canllawiau

1. Annog defnydd aeddfed a chyfrifol o'r cyfrwng trwy sicrhau fod y camau i ddisgyblion yn cael eu trafod fel y gwneir defnydd priodol o'r Rhyngwrwd. Bydd pob plentyn sy'n ddigon hen i fynd ar y Rhyngwrwd yn weddol annibynnol wedi darllen, trafod a chytuno gyda'r Rheolau.
2. Dim ond mewn achosion arbennig iawn y caniateir i blentyn ddod a disg oddi cartref a'i lwytho i gyfrifiadur yn yr ysgol.
3. Sicrhau fod y Corff Llywodraethol yn ymwybodol o'r peryglon o ddefnyddio'r Rhyngwrwd ac yn fodlon ar strategaeth yr ysgol i ymdrin â'r maes.

4. Dylai'r Rhyngwrwyd gael ei integreiddio gyda gweddill y Cwricwlwm fel un o'r Medrau Allweddol.
5. Bydd mynediad i'r We dan oruchwyliaeth athrawon. Gwaherddir defnydd o'r We yn ystod amseroedd chwarae ac amser cinio os nad yw athro/athrawes yn bresennol yn y dosbarth. Yn y ffordd yma, bydd athrawon yn rheoli defnydd disgyblion o'r We.
6. Fel arfer dda dylai athro/athrawes baratoi yn drylwyr ar gyfer defnydd ei ddisgyblion o'r We drwy ymchwilio ymlaen llaw i safleoedd addas ar gyfer defnydd y disgyblion a'u cyfeirio at y rheini.
7. Yn ystod eu cyfnod rhydd ac yn enwedig, yn ystod amseroedd chwarae gwlyb mae disgyblion yn awyddus i ymestyn eu defnydd o'r We gartref i'r ystafell ddosbarth. Fel arfer dda dylai athro / athrawes wirio cynnwys y wefan cyn gadael i'r disgyblion ei defnyddio.
8. Fel gyda defnyddio'r We, er pwrpas ymchwilio, ni chaniateir i ddisgybl gyfathrebu gyda pherson/plentyn arall ar y We heb ganiatâd athro a heb fod yr athro yn gydnabyddus â'r sawl y cyfathrebir ag ef ac at ba bwrpas. Ni chaniateir mynediad i ystafelloedd siarad.
9. Defnyddiwn yr hyn a gynigir gan Ganolfan Dechnoleg Maesincla i hidlo safleoedd anaddas o'r system gan rwystro mynediad i'r disgyblion (Cyber Patrol ar hyn o bryd).
10. Dylid sicrhau fod y staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd oherwydd newidiadau a datblygiadau cyson.
11. Bydd pob P.C. yn yr ysgol wedi ei gysylltu i'r llinell ISDN ac ar y Rhyngwrwyd.
- 12. Bydd yr ysgol yn codi ymwybyddiaeth rhieni o'r defnydd a wneir o'r Rhyngwrwyd yn ogystal â'n strategaethau i sicrhau defnydd diogel drwy gynnwys datganiad ar ein polisi a rhestr o reolau'r ysgol ynglŷn â'i ddefnyddio yn y Llawlyfr Ysgol ac ar wefan yr ysgol. Byddwn hefyd yn llythyru â phob cartref i sicrhau cydweithrediad rhieni yn y gwaith o reoli.**

**Ond er i'r ysgol gymryd camau rhesymol i atal mynediad at ddeunyddiau amhriodol na ellir gwarantu na fydd disgyblion yn cael mynediad i safleoedd anaddas unai trwy ddamwain neu wrth dorri rheolau y Polisi.**

Dylai holl ddefnyddwyr Rhyngwrwyd yr ysgol fod yn ymwybodol o reolau hawlfraint a'i bod yn drosedd bod ym meddiant rhai deunyddiau pornograffig sydd i'w canfod ar y Rhyngwrwyd.

### Medrau Allweddol

Datblyga'r disgyblion eirfa pwnc drwy eu defnydd o'r Rhyngrwyd yn unigol neu mewn grwpiau bach. Trwy gywain gwybodaeth yn y gwahanol feysydd, defnyddiau sgiliau darllen, trafod ac ysgrifennu. Cânt gyfle i gydweithredu mewn grwpiau ar dasgau datrys problemau.

### Cyfle Cyfartal

Bydd staff yr ysgol yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd ffurfiol yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol, yn adlewyrchu cydraddoldeb pob disgybl a'i hawl i gael mynediad llawn i'r Rhyngrwyd. Manteisir ar bob cyfle i ddarparu'n wahaniaethol er mwyn datblygu ac ymestyn disgyblion i'w llawn botensial.

### Casgliad

Dylai pob plentyn gynyddu mewn gwybodaeth, mwynhad a hyder gan ddatblygu agwedd iach a phositif tuag at y Rhyngrwyd. **Er mwyn sicrhau defnydd diogel ac effeithiol o'r Rhyngrwyd, rhaid i ddisgyblion, athrawon, llywodraethwyr a rhieni rannu'r cyfrifoldeb. Rheolir defnydd yn ofalus er mwyn meithrin y disgyblion i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.**

Mabwysiadawyd y Polisi / Cynllun hwn gan Lywodraethwyr Ysgol Bro Plenydd:

Cadeirydd y Llywodraethwyr :

.....

Dyddiad

.....

Arwyddwyd ar ran yr Ysgol ( Pennaeth) :

.....

Dyddiad

.....

Adolygwyd :

Dyddiad

.....



## **Rheolau Defnyddio'r Rhyngrwyd**

### **i Blant Ysgol Bro Plenydd**

Mae'n rhaid i mi ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn gall a chyfrifol. Rydym ni'n defnyddio Rhyngrwyd ar y cyfrifiaduron yn yr ysgol er mwyn dysgu. Mae'r rheolau yma yn fy helpu i ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn gall a chyfrifol. Maent yn fy helpu i fod yn deg â phawb arall ac i ddiogelu pawb.

- Ni chaf ddefnyddio'r We heb ofyn caniatâd fy athro/athrawes.
- Mae'n rhaid i mi ddangos i'm hathro/athrawes gyfeiriad y wefan rwyf yn bwriadu ymweld â hi.
- Mae'n rhaid i'm hathro/athrawes wirio y safle cyn i mi gael gwneud defnydd ohoni.
- Os yw fy athro/athrawes yn gwrthod i mi ddefnyddio'r Rhyngrwyd, yna mae'n rhaid i mi barchu eu dymuniad ac ufuddhau
- Ar rwydwaith, dim ond fy enw mewngofnodi a chyfrinair fy hun a ddefnyddiaf ac fe'i cadwaf yn gyfrinachol.
- Ni chaf ddod a cô bach / chwaraewyr mp3 / ipad / iphone o'r cartref heb ganiatâd penodol gan athro.
- Dim ond at bobl y mae'r athro/athrawes yn eu cymeradwyo y caf anfon e-bost. Mae'n rhaid i mi sicrhau bod y negeseuon a anfonaf yn gwrtais a synhwyrol.
- Wrth anfon e-bost, ni roddaf fy nghyfeiriad cartref na'm rhif ffôn na llun ohonof i neb ac ni threfnaf i gyfarfod â neb.
- Mae'n rhaid i mi ofyn caniatâd cyn agor e-bost neu atodiad e-bost a anfonir at yr ysgol.
- Ni chaf, ar unrhyw gyfrif, ddefnyddio ystafelloedd sgwrsio ar y Rhyngrwyd.
- Os gwelaf rywbeth nad wyf yn ei hoffi neu os ddarllenaf neges nad wyf yn ei hoffi, gadawaf y cyfrifiadur yn syth a dweud wrth yr athro/athrawes.

- Cofio mai pwrpas y Rhynggrwyd yw i ddisgyblion gywain gwybodaeth.
- Ni chaniateir cyrchu, arddangos nac anfon deunydd anaddas ar y Rhynggrwyd.
- Ni ddylid yn fwriadol wastraffu amser nac adnoddau tra'n defnyddio'r Rhynggrwyd.
- Ni ddylid defnyddio cyfrineiriau disgyblion eraill na chwilota yn eu ffeiliau cadw.
- Gall athrawon gael mynediad at, ac archwilio ffeiliau cadw disgyblion sydd ar systemau'r ysgol.
- Dim ond ar ôl i'r ysgol dderbyn cadarnhâd ysgrifenedig gan fy rhieni / gwarcheidiaid y caf ddefnyddio'r Rhynggrwyd

Rwyf yn deall os y torraf y rheolau hyn yn fwriadol, y byddaf yn derbyn cosb ac yn cael fy ngwahardd rhag defnyddio'r cyfrifiaduron a'r Rhynggrwyd yn yr ysgol.

Arwyddwyd : \_\_\_\_\_